OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2013 Rhif 543 (Cy.56)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2013

Gwnaed - - - -	*7 Mawrth 2013*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*11 Mawrth 2013*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2013*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 71, 128, 129, 130, a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2013 sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2013.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Optegol" ("*the Optical Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**2**).

Diwygio rheoliad 1 o'r Rheoliadau Optegol

2. Yn rheoliad 1(2) o'r Rheoliadau Optegol (enwi, cychwyn a dehongli), yn y diffiniad o "NHS sight test fee"—

(a) yn lle "£57.16" rhodder "£57.72"; a

(b) yn lle "£20.70" rhodder "£20.90".

Diwygio rheoliad 19 o'r Rheoliadau Optegol

3. Mae rheoliad 19 o'r Rheoliadau Optegol (gwerth adbrynu taleb ar gyfer amnewid neu drwsio) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn—

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "£54.20" rhodder "£54.70"; a

(b) ym mharagraff (3), yn lle "£14.00" rhodder "£14.10".

Diwygio'r Atodlenni i'r Rheoliadau Optegol

4.—(1) Mae Atodlenni 1 i 3 o'r Rheoliadau Optegol wedi eu diwygio yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn Atodlen 1 (codau llythrennau ac wynebwerthoedd talebau — cyflenwi ac amnewid) yng ngholofn (3) o'r tabl (wynebwerth taleb), yn lle pob swm a bennir yng ngholofn (1) o'r tabl isod rhodder y swm a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (2) o'r tabl isod:

(1) Swm blaenorol	*(2) Swm newydd*
£37.10	£37.50
£56.40	£57.00
£82.60	£83.40
£186.50	£188.40
£64.20	£64.80
£81.60	£82.40
£105.80	£106.90
£205.10	£207.20
£191.00	£192.90
£54.20	£54.70

(3) Yn Atodlen 2 (prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd, sbectolau bach a sbectolau arbennig, a theclynnau cymhleth)—

(a) ym mharagraff 1(1)(a), yn lle "£12.10" rhodder "£12.20";

(b) ym mharagraff 1(1)(b) yn lle "£14.60" rhodder "£14.70";

(c) ym mharagraff 1(1)(e), yn lle "£61.20", "£54.20" a "£29.30" rhodder "£61.80", "£54.75" a "£29.60" yn eu trefn;

(d) ym mharagraff 1(1)(g), yn lle "£61.20" rhodder "£61.80";

(e) ym mharagraff 2(a), yn lle "£14.00" rhodder "£14.10"; ac

(f) ym mharagraff 2(b), yn lle "£35.50" rhodder "£35.90".

(4) Yn lle Atodlen 3 (gwerthoedd talebau — trwsio), rhodder yr Atodlen 3 a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

Darpariaeth Drosiannol

5. Dim ond mewn perthynas â thaleb a dderbynnir neu a ddefnyddir yn unol â rheoliad 12 neu reoliad 17 o'r Rheoliadau Optegol ar 1 Ebrill 2013 neu ar ôl hynny y mae'r symiau a amnewidir gan reoliadau 3 a 4 yn gymwys.